CIWB

**Tasg 1**

# Drama'r coed

Mewn grŵp, ysgrifennwch ddrama am y Maharaja o Jodhpur, ei ddynion, Amrita Devi a phobl y pentref.

Os ydych chi eisiau, dilynwch y patrwm yma:

Golygfa 1: Maharaja o Jodhpur yn siarad â'r dynion.

Golygfa 2: Amrita Devi yn siarad â phobl y pentref.

Golygfa 3: Y dynion yn gofyn i Amrita pwy ydy hi, ble mae hi'n byw, pam mae hi'n cofleidio coeden. Yna, maen nhw'n dweud wrth Amrita am symud, ond ...

Golygfa 4: Pobl y pentref yn drist. Maen nhw'n penderfynu cofleidio coeden.

Golygfa 5: Y dynion yn gofyn i'r bobl pwy ydyn nhw, ble maen nhw'n byw, pam maen nhw'n cofleidio'r coed. Yna, maen nhw'n dweud wrth y bobl am symud, ond ...

Golygfa 6: Y Maharaja o Jodhpur yn dod i'r pentref ac yn stopio'r dynion.

Dilynwch batrwm arall os ydych chi eisiau.

| Geirfa | |
|---|---|
| dilyn | to follow |
| golygfa | scene |
| cofleidio | to hug |
| penderfynu | to decide |